# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD GWENER, 9 TACHWEDD 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS** A GYNHELIR YN **CHAMBER - COUNTY HALL, CARMARTHEN. SA31 1JP.** AM **10.30 AM, DYDD GWENER, 16EG TACHWEDD, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
# 14 AELOD

## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - 3 AELOD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | KEN HOWELL | (Plaid Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | JIM JONES | (Annibynnol) |
| 3. | CYNGHORYDD | ERYL MORGAN | (Llafur) |

## CYNGOR SIR CEREDIGION - 3 AELOD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | LLOYD EDWARDS | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | KEITH EVANS | (Annibynnol) |
| 3. | CYNGHORYDD | ALUN LLOYD JONES | (Plaid Cymru) |

## CYNGOR SIR PENFRO - 3 AELOD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | MICHAEL JAMES | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | STEPHEN JOSEPH | (Annibynnol heb gysylltiad) |
| 3. | LLE GWAG | ROBERT SUMMONS | (Ceidwadwyr) |

## CYNGOR SIR POWYS - 3 AELOD

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | CYNGHORYDD | DAVID O. EVANS | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | LES GEORGE | (Plaid Geidwadol Cymru) |
| 3. | CYNGHORYDD | WILLIAM POWELL | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |

## AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG - 2 AELOD

1. YR ATHRO IAN ROFFE
2. MRS HELEN MARGARET THOMAS

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANT**

3. **LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 27AIN GORFFENNAF 2018** 9 - 16

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)**

5. **CWESTIWN Â RHYBUDD I'R PANEL GAN A.T. O SIR GAERFYRDDIN**

"Roeddwn i'n synnu gweld nad yw'r panel yn cynrychioli'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu. Dim ond un fenyw hŷn â chroen gwyn sydd ar y panel ac mae'r gweddill yn ddynion hŷn â chroen gwyn. A ellid rhoi system ar waith er mwyn sicrhau bod aelodau'r panel yn adlewyrchiad gwell o'n cymdeithas? Dylai'r system hon sicrhau bod menywod ifancach ar y panel, yn enwedig mamau sydd â chyfrifoldebau o ran gofal plant, aelod o'r panel sy'n perthyn i'r grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, aelod o'r panel sy'n anabl ac aelod o'r panel sy'n perthyn i'r gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. Pam y penderfynwyd y dylai'r panel gynnwys cynghorwyr sir, oherwydd mae'r rhain yn bennaf yn ddynion hŷn, strêt â chroen gwyn sydd wedi ymddeol. Mae gennym gymdeithas batriarchaidd iawn o hyd lle mae hiliaeth a rhywiaeth strwythurol a sefydliadol yn bodoli ac nid yw'r panel hwn yn gwneud dim i geisio mynd i'r afael â hyn. Gan fod mwyafrif aelodau'r panel yn cynrychioli yn bennaf un grŵp o'n cymdeithas amrywiol, golygir eu bod yn debygol o ddangos tueddiadau yn yr isymwybodol yn erbyn grwpiau penodol a gall hyn gyfrannu at wneud penderfyniadau gwael a gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau hynny o bobl."

6. **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD:**

**6 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS**

<u>Troseddau Ieuenctid</u>

"Nododd y Gweinidog Cyfiawnder mewn adroddiad diweddar fod nifer y bobl ifanc sy'n eu cael yn euog o droseddau yn ardal Ceredigion wedi lleihau'n sylweddol dros y 12 mlynedd diwethaf. Mewn gwirionedd, mae'r nifer 75% yn is. Mae'r ffigurau ar gyfer 2017 yn dangos bod 37 o bobl wedi troseddu am y tro cyntaf.

A oes gan y Comisiynydd ddata cyffelyb ar gyfer gweddill ardal y llu?

Mae'r Comisiynydd yn gwario swm sylweddol o arian ar gynlluniau i gefnogi ein Hieuenctid ac atal troseddu. Os yw data'n dangos lleihad tebyg yng ngweddill ardal y llu ac o gofio'r pwysau enfawr ar gyllidebau, a fydd y Comisiynydd yn lleihau'r adnoddau a ddyrannwyd i'r maes gwaith hwn?”

## 6 .2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS

DATGANIAD CYFRIFON AR GYFER 2017-2018

“Er y derbynnir ei bod yn amhosibl rhagweld yn fanwl gywir y gofynion a allai fod ar y llu yn y dyfodol, yn enwedig yn sgil digwyddiadau a thrychinebau unigryw, gellid dadlau nad oedd rhywfaint o'r rhagolygon cyllidebu ar gyfer 2017-2018 mor gadarn ag y gallent fod. Pa gamau y mae'r Comisiynydd yn eu cymryd i sicrhau y bydd rhagolygon o'r fath mor gadarn ag y bo'n rhesymol yn y dyfodol?”

## 6 .3 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS

DATGANIAD CYFRIFON AR GYFER 2017-2018

“Ymddengys fod cymhariaeth o'r asedau a'r rhwymedigaethau a ddangosir yn y datganiad cyfrifon ar gyfer 16/17 a 17/18 yn dangos gwanhad sylweddol o ran iechyd ariannol cyffredinol y gyllideb. A yw hyn yn rhan o duedd hirach ac os felly, pa gamau y mae'r Comisiynydd yn eu cymryd i'w wrthdroi?”

## 6 .4 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS

DATGANIAD CYFRIFON AR GYFER 2017-2018

“Ar dudalen 69 y datganiad cyfrifon, o dan y pennawd 'incwm segmentol' nodwyd ffigwr o £1,067,000 gan y 'Gyfarwyddiaeth Adnoddau'. A allai'r Comisiynydd esbonio â beth a wnelo hyn? A yw'r Comisiynydd yn fodlon y gwneir pob ymdrech i fanteisio i'r eithaf ar ffrydiau incwm sydd ar gael er mwyn lleihau pwysau cyllidebol a'r baich ar drethdalwyr lleol.”

## 6 .5 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS

DATGANIAD CYFRIFON AR GYFER 2017-2018

“O ystyried agwedd y Llywodraeth bresennol at ariannu'r gwasanaeth heddlu yn genedlaethol, a fu unrhyw awgrym fod grant atodol y Swyddfa Gartref ar gyfer pensiynau o dan fygythiad? O ystyried y potensial i rwymedigaethau pensiynau roi baich sylweddol ar y gyllideb, a ystyrir materion o'r fath wrth ganiatáu ymddeol yn gynnar? Pa gamau sy'n cael eu cymryd i

leihau'r risgiau y mae'r materion hyn yn eu hachosi?"

**6 .6 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD KEITH EVANS**

DATGANIAD CYFRIFON AR GYFER 2017-2018

"Ar dudalen 81 o'r datganiad cyfrifon yn y golofn 'cyfanswm yr asedau dros ben' nodir £1,437,000 ar gyfer 'asedau a ailddosberthir'. A fyddai'r Comisiynydd gystal â chadarnhau beth y mae hyn yn ei olygu a pha asedau y mae'n cyfeirio atynt."

**6 .7 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

"Beth yw eich dealltwriaeth o annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl a sut y mae hyn yn effeithio, yn ymarferol, ar sut rydych yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif?"

**6 .8 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

"Esboniwch yn benodol sut rydych yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif mewn perthynas â Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol, Gwrthderfysgaeth, Gweithrediadau Arbennig a Gweithgareddau Cudd-wylio."

**6 .9 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

"Esboniwch y strwythurau llywodraethu rydych wedi'u rhoi ar waith a sut rydych yn sicrhau eu bod nhw wedi'u halinio'n strategol â'r prif risgiau y mae'r llu'n eu hwynebu."

**6 .10 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

"Sut rydych yn monitro cryfder y cysylltiad rhwng eich Cynllun Heddlu a Throseddu a'r hyn y mae swyddogion gweithredol yn ei wneud o ddydd i ddydd? Sut rydych yn sicrhau bod swyddogion gweithredol yn ymwybodol o'ch blaenoriaethau?"

**6 .11 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

"Sut rydych yn derbyn gwybodaeth gan y llu ynghylch ei berfformiad? A roddir y wybodaeth ichi gan y Prif Gwnstabl a'i swyddogion neu a oes gennych chi a'ch swyddogion fynediad uniongyrchol i ddata rheoli'r llu? Os rhoddir y wybodaeth ichi gan y Prif Gwnstabl a'i swyddogion, sut rydych yn sicrhau bod y wybodaeth sy'n dod i law gan y llu yn gywir?"

**6 .12 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

"Rhowch enghreifftiau o adegau pan rydych, trwy ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Dyfed-Powys. A oes unrhyw adegau pan rydych yn teimlo nad yw eich gweithredoedd wedi sicrhau'r nodau a

ddymunwyd ac os felly, beth rydych wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn?”

6 .13 **CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL**

“Yn dilyn cael cyfle i fynychu ac i arsylwi cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, rwy'n credu ei fod yn deg dweud fod lefel y presenoldeb y cyhoedd yn isel iawn (fel mewn cyfarfodydd o'r panel hwn). A fyddai'r Comisiynydd yn cytuno felly er mwyn sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw, y byddai'n fwy priodol o lawer i gyfarfodydd o'r fath gael eu gweddarlledu (ac felly'n hygyrch i'r mwyafrif helaeth o drigolion) hyd yn oed os yw hynny ar draul cyfyngu ar nifer y lleoliadau addas i'w cynnal?”

7. **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU O'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD:**

7 .1 **CWESTIWN GAN A.B.**

“A yw’n bryd i’r dreth gyngor gael ei defnyddio’n llai ar gyfer ariannu’r heddlu, a’i defnyddio’n hytrach ar gyfer ariannu cwmnïau diogelwch i blismona ein cymunedau yn lle hynny, gan nad oes gennyf i na’m cymdogion unrhyw hyder o gwbl yn yr heddlu mwyach, ac erbyn hyn nid ydym yn ffwdanu rhoi gwybod iddynt am droseddau sy’n ymwneud â chyffuriau yn ein hardal?”

7 .2 **CWESTIWN GAN E & C.**

“Sut ydych chi yn eich rôl fel Comisiynydd yr Heddlu, yn monitro gwaith Heddlu Dyfed-Powys o ran gorfodi’r terfynau cyflymder sydd ar waith y tu allan i ysgolion, megis ein hysgol ni yma yn Nhalgarth?”

7 .3 **CWESTIWN GAN C.D.**

“Pa fesurau sydd ar waith gennych, fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, i sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys bolisi sy’n addas i’r diben er mwyn rhybuddio pobl ifanc ynghylch ffenomenon 'Perygl Dieithriaid?”

7 .4 **CWESTIWN GAN C.D.**

“Pa mor aml ydych chi, fel Comisiynydd Heddlu, yn cael diweddariad gan y Prif Gwnstabl ynghylch digwyddiadau o’r math hwn – a sut yr adroddir ynghylch effeithiolrwydd cyswllt a chyfathrebu ag awdurdodau addysg lleol, ysgolion a chymunedau lleol os bydd digwyddiadau’n codi?”

8. **BLAENORIAETH 3 Y PANEL - CRAFFU AR GYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDDU** 17 - 70

| | | |
|---|---|---|
| 9. | **PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD** | 71 - 78 |
| 10. | **BLAENORIAETH 2 Y PANEL - SUT Y MAE COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU YN DAL Y PRIF GWNSTABL I GYFRIF** | 79 - 84 |
| 11. | **BLAENORIAETH 3 Y PANEL - CRAFFU AR GYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDDU - CAIS AM DYSTIOLAETH GAN GYNGOR SIR CAERFYRDDIN** | 85 - 88 |
| 12. | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.


| | | |
|---|---|---|
| 13. | **CWYN YN ERBYN COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU** | 89 - 98 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

**27 GORFFENNAF 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lloyd-Jones (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
Cynghorwyr J.K. Howell, T. J. Jones a E. Morgan;

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
Y Cynghorydd K. Evans a L. Edwards;

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
Cynghorwyr M. James, S. Joseph a R. Summons;

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
Cynghorwyr D. Evans, a W. Powell;

**Aelodau Annibynnol:-**
Yr Athro I. Roffe;
Mrs. H.M. Thomas;

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:-**
Mr. Llywelyn - Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;
Ms. B. Peatling - Prif Swyddog Ariannol;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
L. Morris, Uwch Swyddog y Wasg;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:30am - 1:15pm**

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PANEL

**CYNIGIWYD PENODI'R CYNGHORYDD A LLOYD-JONES YN GADEIRYDD Y PANEL AC EILIWYD HYNNY.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Panel.**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd. Cynigiwyd penodi'r Athro I. Roffe yn Is-gadeirydd y Panel, ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Athro I. Roffe yn Is-gadeirydd y Panel.**

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. George (Cyngor Sir Powys).

Bu i'r Panel longyfarch y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a thîm o swyddogion Heddlu Dyfed-Powys gan eu bod wedi cymryd rhan mewn sialens a chwblhau taith feicio 5 niwrnod at achos da, a gododd arian ar gyfer elusen Safer Dyfed-Powys Diogel. Cynhaliwyd y daith feicio rhwng 29 Ebrill 2018 a 4 Mai 2018 a chododd oddeutu £5,000.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 4. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAI 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 18 Mai 2018 yn gofnod cywir.**

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

5.1 Cofnod 4.1 – Eitem Agenda, Cwestiwn gan y Cynghorydd A. Lloyd Jones

Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau i gyllido'r rhaglen am 12 mis pellach, o ganlyniad i ymgyrch sylweddol, er mwyn cael tystiolaeth bellach cyn gwneud penderfyniad terfynol.

5.2 Cofnod 4.5 - Eitem Agenda, Cwestiwn gan y Cynghorydd M. James

Dywedwyd ei fod yn bleser nodi bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi bod yn gweithio ar y cyd â chymunedau ffermio er mwyn lleihau nifer yr achosion o boeni da byw. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod camau sylweddol wedi'u cymryd i sicrhau bod pob Sir yn cael adnoddau penodedig penodol er mwyn rhoi diwedd ar droseddau poeni da byw.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch trefniadau llywodraethu'r Strategaeth Troseddau Gwledig, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod y Prif Gwnstabl yn cadeirio cyfarfodydd gyda fforymau a phartneriaid troseddau gwledig yn rheolaidd. Er bod y Fforwm yn swyddogaeth weithredol, estynnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wahoddiad i Aelodau'r Panel ddod a bod yn gynrychiolwyr ar y Fforwm.

5.3 Cofnod 7 – Eitem Agenda, Penderfyniadau'r Comisiynydd

Nodwyd bod hen orsaf yr heddlu yn Sanclêr gyferbyn â'r maes parcio yn ddiolwg a mynegwyd pryder ei bod yn bosibl bod hyn yn achosi'r cyhoedd i gael argraff gynyddol negyddol o ran ei chysylltiad blaenorol â'r Heddlu. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod yr adeilad wedi'i werthu ac nad yw Heddlu Dyfed-Powys yn gyfrifol am yr adeilad mwyach.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Cafodd y Panel Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer 2017/18 i'w ystyried yn unol â darpariaethau Adrannau 12 a 28 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Pwysleisiwyd bod nifer o heriau wedi bod o ran Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion y Goleudy ers iddo gael ei lansio. Cydnabuwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod nifer o welliannau wedi'u nodi o ganlyniad i rai problemau cychwynnol. Mae gwelliannau i'r gwasanaeth yn cynnwys bod y Goleudy'n cytuno i reoli a chynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig risg ganolig a'r holl achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol risg uchel.

  Yn ogystal, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bod cynnig wedi'i wneud bod y Goleudy'n rhoi adroddiad ar berfformiad ac y byddent yn gyfrifol amdano.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch teithwyr yn cyrraedd Aberystwyth, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn uniongyrchol i'r Cynghorydd fel yr aelod lleol ar ôl cael trafodaeth â'r Prif Gwnstabl.

- Er mwyn codi proffil Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, awgrymwyd bod gwaith y Panel yn cael ei gydnabod yn yr Adroddiad Blynyddol. Cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ystyried yr awgrym.

- Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth o gamerâu teledu cylch cyfyng. Dywedwyd bod y wasg leol wedi adrodd straeon newyddion cadarnhaol. Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wybod i'r Panel ei fod wedi treulio noson yng Ngorsaf Heddlu Llanfair-ym-Muallt i weld yn uniongyrchol y cyfleuster teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio. Wrth iddo arsylwi, gwnaed arestiad lle byddai'r fideo teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod yn falch o weld bod y system teledu cylch cyfyng yn gweithio yn unol â'r bwriad, a'i fod yn edrych ymlaen at weld y llwyddiant mewn ardaloedd eraill.

  Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth y Pwyllgor fod taflen wedi'i llunio i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am ddarpariaeth system teledu cylch cyfyng. Roedd y daflen ar gael i'r Pwyllgor ei gweld.

  Estynnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wahoddiad i'r Panel ddod i weld Ardal Fonitro Ganolog y system teledu cylch cyfyng ym Mhencadlys yr Heddlu ar ôl y seminar ariannol nesaf.

  Yn dilyn ymholiad ynghylch technoleg Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR), dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod desg dactegol cudd-wybodaeth ANPR wedi'i chyflwyno sy'n darparu cyfleuster cadarn a phellgyrhaeddol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch defnyddio meddalwedd adnabod wynebau, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, er bod Heddlu De Cymru yn defnyddio'r swyddogaeth adnabod wynebau ar hyn o bryd yn eu system teledu cylch cyfyng, nad oedd bwriad i ddefnyddio meddalwedd adnabod wynebau yn system teledu cylch cyfyng Heddlu Dyfed-Powys oherwydd pryderon ynghylch ei chywirdeb. Fodd bynnag, os bydd cyfle i ddefnyddio meddalwedd adnabod wynebau yn y dyfodol, mae'r system teledu cylch cyfyng sydd wedi'i gosod yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD

Er gwybodaeth, cafodd y Panel adroddiad a fanylai ar y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod rhwng 19 Rhagfyr 2017 a 16 Gorffennaf 2018. Codwyd y materion canlynol:

- Mewn perthynas â phenderfyniad ynghylch canolfan Plismona Bro Caerfyrddin, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod y broses wedi cael ei gohirio gan fod yna leithder yn yr adeilad. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod â Chyngor Tref Caerfyrddin, ac os na fydd problemau gan CADW, byddai Canolfan Plismona Bro Caerfyrddin yn agor maes o law.

  Yn dilyn sylw ynghylch gweledigrwydd yr Heddlu, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod cysylltiadau rhwng y cyhoedd a'r Heddlu wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf a bod y cyhoedd yn cael eu hannog i ffonio 101 neu 999, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y mater. Dywedwyd ymhellach ei bod yn bwysig bod yr Heddlu yn aros yn weladwy er diogelwch y cyhoedd ac er mwyn diwallu anghenion rhai pobl oedrannus ac unigolion eraill y mae'n well ganddynt gyfathrebu wyneb yn wyneb.

  Gofynnwyd ynghylch oriau agor Canolfan Plismona Bro Caerfyrddin. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl yn ddiweddar ynghylch yr oriau agor yn y dyfodol a bod yr Uwcharolygydd Claire Parmenter fel rhan o dîm wedi cael cyfarwyddyd i adolygu oriau agor yr holl ganolfannau plismona bro. O ystyried yr adolygiad uchod, roedd y Panel yn awyddus i gael eglurdeb a chysondeb o ran oriau agor canolfannau plismona bro ar draws y llu.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch plismona mewn parau, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu nad oes gofyniad i'r heddlu gael eu gweld mewn parau, ond bod parau'n angenrheidiol at ddibenion mentora.

- Gan gyfeirio at y penderfyniad ynghylch datrysiad copïau wrth gefn TGCh, esboniodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y broses o gaffael contractau a bod cymeradwyaeth derfynol yn cael ei rhoi gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

- Gofynnwyd sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a oedd dull safonol. Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sicrwydd i'r Panel nad yw unrhyw benderfyniad a wneir yn cael effaith negyddol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dywedodd y byddai'n cynnwys y modd y mae penderfyniadau'n effeithio ar y Ddeddf yn adroddiadau'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. BWRDD ATEBOLRWYDD YR HEDDLU

Bu'r Panel yn ystyried agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018.

Dywedodd y Cadeirydd fod rhai o'r tudalennau'n annealladwy a gofynnodd a fyddai modd gwella ansawdd yr adroddiadau ar gyfer y cyfarfodydd yn y dyfodol.

Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r cynnydd mewn absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig ag anhwylderau seicolegol, a gofynnwyd beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod y duedd yn gyson â'r tueddiadau cenedlaethol yn anffodus, a bod hynny'n cynyddu bob blwyddyn. Ychwanegodd y gellid priodoli'r cynnydd i'r ffaith bod unigolion yn fwy cyfforddus o ran adrodd eu rhesymau dros yr absenoldeb wrth i'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac anhwylderau seicolegol leihau.

Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sicrwydd i'r Panel fod mesurau rhagweithiol wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn cynorthwyo unigolion a lleihau'r duedd gynyddol drwy drefnu seminarau llesiant staff, ffeiriau ac arolygon.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod y cyhoedd yn cael eu hannog i ffonio 101 gan y byddai hyn yn galluogi'r gwaith o gyfrif faint o amser a gymerwyd i ddatrys pob galwad ar gyfartaledd.

Gofynnwyd a oes modd rhannu canlyniadau arolwg staff diweddar â'r Panel. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y byddai'n gwneud ymholiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad ynghylch cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 yn cael ei nodi.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD

Derbyniodd y Panel Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2017-2018, a oedd â'r nod o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl a gwaith y Panel. Lluniwyd yr adroddiad yn unol â'r arweiniad a ddarparwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

Roedd yr adroddiad yn rhoi adolygiad o'r flwyddyn 2017-18 gan gynnwys 4 amcan y Panel ar gyfer 2018-19. Roedd aelodau canlynol y panel wedi gwirfoddoli i fod yn hyrwyddwyr y Panel ar gyfer pob amcan:-

1. Craffu ar Braesept yr Heddlu - Y Cynghorydd Keith Evans
2. Craffu ar y modd y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif - Y Cynghorydd William Powell
3. Craffu ar y Cynllun Heddlu a Throseddu - Yr Athro Ian Roffe
4. Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Panel Heddlu a Throseddu - Y Cynghorydd Alun Lloyd Jones

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cynnig y trefniadau canlynol o ran dosbarthu:-

- Cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar wefan y Panel a'i ddosbarthu drwy ddefnyddio'r cyfryngau traddodiadol sydd ar waith yn ardal y llu;

- E-bostio'r Adroddiad Blynyddol at yr holl Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Aelodau Senedd Ewrop, Cynghorwyr Sir a Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal y llu.

Yn ogystal â'r trefniadau dosbarthu uchod, gofynnwyd bod llyfrgelloedd a Chadeiryddion Paneli Heddlu a Throseddu eraill yn cael eu cynnwys, a bod copïau ar gael yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ogystal, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai'n anfon e-bost at holl aelodau'r Panel sydd am gael argymhellion o ran ble i ddosbarthu'r cynllun yn eu hardaloedd.

Tynnodd y Panel sylw at rai camgymeriadau teipio a gafodd eu nodi gan y Swyddogion.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol am ei arweiniad a'i gymorth wrth ddatblygu'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2017-2018, yn amodol ar gywiro'r camgymeriadau teipio;**

**9.2 cymeradwyo'r rhestr ddosbarthu a nodwyd yn yr adroddiad i gynnwys llyfrgelloedd a Chadeiryddion Paneli Heddlu a Throseddu eraill.**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**10. STRATEGAETH GYFATHREBU'R PANEL**

Derbyniodd y Panel yr adroddiad ynghylch Strategaeth Gyfathrebu'r Panel a dosbarthwyd y Strategaeth i'r Panel i'w hystyried.

Mae'r Strategaeth wedi cael ei datblygu er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a oedd yn gofyn i Baneli Heddlu a Throseddu hyrwyddo eu gweithgareddau gyda golwg ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd. Yn ogystal, rhoddwyd sicrwydd gan y Strategaeth bod ei gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn modd cost-effeithiol, a fyddai yn ei dro yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth Grant y Swyddfa Gartref sy'n cyllido gwaith y Panel.

Pwysleisiodd yr adroddiad fod yr holl weithgareddau hyrwyddo wedi'u gwneud gan Dîm Marchnata a'r Cyfryngau Cyngor Sir Caerfyrddin ers creu Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, ac mae hyn yn cynnwys:

- creu a chynnal gwefan y Panel;
- llunio nifer fawr o ddatganiadau i'r wasg;
- gwaith ymgysylltu â'r cyfryngau traddodiadol ar draws ardal y llu;
- gwaith ymgysylltu â swyddfeydd gwasg y 3 awdurdod arall sydd yn ardal y llu.

O ganlyniad i'r gwaith uchod, nododd y Panel fod y cyhoedd a'r wasg wedi dangos llawer mwy o ddiddordeb yng ngwaith y Panel dros y 12 mis diwethaf.

Er mwyn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o rôl benodol y Panel, mae'r Strategaeth yn dangos sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio'r cyfryngau traddodiadol a chyfryngau ar-lein/cymdeithasol.

Nododd y Panel y gallai gweddarlledu ei gyfarfod fod yn ddull o ddarparu ffyrdd cost-effeithiol o ymgysylltu â'r wasg a'r cyhoedd ac felly cynigiwyd bod y Panel yn treialu hyn ar gyfer ei gyfarfod nesaf ar 16 Tachwedd 2018.

Diolchodd y Cadeirydd i dîm Marchnata a'r Cyfryngau Sir Gaerfyrddin am yr holl waith rhagorol y maent yn ei wneud ar gyfer y Panel.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**10.1 gymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu'r Panel;**

**10.2 treialu'r gweddarlledu yng nghyfarfod nesaf y Panel a drefnwyd ar gyfer 16 Tachwedd 2018 yng Nghaerfyrddin.**

________________________ __________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**
**16/11/18**

| **BLAENORIAETH 3 Y PANEL - CRAFFU AR GYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDDU** |
|---|
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br>Nodi'r adroddiad gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu'r blaenoriaethau yn y cynllun a gwneud argymhellion o'r fath fel y gwêl y Panel yn dda |
| **Y rhesymau:**<br>Mae Aelodau'r Panel wedi nodi mai craffu ar Gynllun yr Heddlu a Throseddu fydd un o'u blaenoriaethau ar gyfer 2018-2019. |



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Yr Athro Ian Roffe | Hyrwyddwr y Panel | 01267 224018 |
| Robert Edgecombe | Swyddog Arweiniol | Cyfeiriad e-bost: |
| | | rjedgeco@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# DYFED – POWYS POLICE AND CRIME PANEL
# 16/11/18

## PANEL PRIORITY 3 – SCRUTINY OF THE POLICE AND CRIME PLAN

The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 (‘the 2011 Act’) places a statutory duty upon Police and Crime Commissioners to publish a Police and Crime Plan setting out their priorities. The 2011 Act also places a statutory duty upon Police and Crime Panels to scrutinise such Plans and monitor their effectiveness.

The Dyfed-Powys Police and Crime Panel has identified this function as one of their priorities for 2018-2019 and nominated their Vice-chairman, Professor Ian Roffe to act as the lead member (or Panel Champion) in respect of it.

The Panel has asked the Police and Crime Commissioner to provide the attached detailed report setting out the progress being made in respect of the implementation of the Police and Crime Plan.

Panel members are asked to note the report and make such recommendations to the Commissioner as they consider appropriate.

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| **Host Authority File** | **LS-0511/39** | **County Hall Carmarthen** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Policing Protocol 2011 Health Check

| | |
|---|---|
| | Not compliant. Duty not currently being met |
| | Partially compliant. Some additional work necessary |
| | Fully compliant, no additional work necessary |
| | N/A |

| Duty | Number | Action Required | RAG status | Progress Update Nov 2018 (Q2 Jul/Aug/Sep) |
|---|---|---|---|---|
| Set the strategic direction and objectives of the Force through the Police and Crime Plan which must have regard to the SPR | 17a | Development of Police and Crime Plan in line with requirements set out in Police Reform and Social Responsibility Act 2011 (Part 1; Chapter 3; 7) | | Launched following Police and Crime Panel review w/c 27th March 2017 |
| | | Development of a Police and Crime Delivery Plan to support the achievement of the objectives as set out in the Police and Crime Plan | | Launched following Police and Crime Panel review w/c 27th March 2017 |
| | | Review the Police and Crime Plan to ensure it remains fit for purpose | | Informal review undertaken concluding that the PCP remains fit for purpose and relevant given the broad nature of the Plan, however consideration needs to be given to prioritisation for the remainder of the PCP lifespan. Policy officer lead on SPR supports the oversight of Force activity in relation to this and a response has been submitted to the recent national consultation on the SPR, which supports extending the focus to cover other elements e.g. roads policing |
| Scrutinise, support and challenge the overall performance of the force including against the priorities agreed within the Plan | 17b | There are formal governance arrangements in place to support effective scrutiny | | The revised governance structures were formally launched on 3rd September 2017. The arrangements are designed to enable clear structure, governance and accountability. In so doing, the arrangements provide a foundation for collaboration, efficiency, partnership working and importantly, provide a landscape that ensures greater understanding of our organisation, our demands and our service delivery.<br><br>The governance arrangements have evolved over the last 12 months and V16 of the structure is available.<br><br>A review of the governance arrangements is due to take place (October 2018) and once complete, findings will be reported and areas identified for improvements will be reviewed and where appropriate, implemented. |
| | | Development and annual review of Corporate Governance Framework | | The annual review and ensuing amendments of the CGF was approved by the PCC and CC at Policing Board in April 2018 following extensive consultation internally and with the Joint Audit Committee. The revised CGF has been published along with an FAQ document to aide use and accessibility of the document. |
| | | Establish a risk-based, forward looking schedule of activity to support improvements in Force performance | | Supportive scrutiny process is gaining traction, with whole OPCC involved in scoping and fieldwork of first deep dive exercise.<br>Forward work plan for assurance function is set out for forthcoming year, with additional detail being added each month when new themes are agreed.<br>Corporate risks considered when planning future scrutiny activity. 40% of current risks have been considered prior to introduction of healthcheck. |
| | | Ensure the public's views are represented in the PCC's scrutiny work | | Engagement with public through summer shows and online survey has provided suggestions for future scrutiny focus.<br>Public views collected for Use of Force deep dive.<br>Quality Assurance Panel have reported on Use of Force, neighbourhood dispute related complaints, Stop and Search and Hate Crime during this quarter. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Oversight and implementation of external inspectorates recommendations | | National thematic inspection into Hate Crime released in July. OPCC staff have been liaising closely with Force Hate Crime Lead and are assured that DPP have a proactive action plan to increase awareness and tackle incidents. QAP findings from follow-up dip-sample of Hate Crime in August found the Force had acted upon feedback and improved their recording of responses to Hate Crimes and Incidents.<br>OPCC staff continue to oversee Force's progress against external inspectorate recommendations through access to the action tracker and attendance at governance meetings, where HMICFRS AFIs is a standing agenda item. |
| Hold the Chief Constable to account for the performance of the Force's officers and staff | 17c | Development of a performance framework and structure that allows a greater understanding of the Police and Crime Plan outcomes | | Compliance and Performance Manager is undertaking a piece of work to progress this to put measures in place, scheduled to be near completion for the next quarter. |
| | | There are formal governance arrangements in place to hold the Chief Constable to account for the performance of officers and staff | | Formal governance arrangements are in place which include the Policing Accountability Board which is a public meeting where the PCC holds the CC to account for Force performance. Additionally there are fortnightly Policing Board meetings which focus on specific areas linked to the Police and Crime Plan. Standing agenda items include Finance and Strategic HR. |
| | | Chief Constable's Professional Development Review | | Discussions on the Chief Constable's PDR have ensued however there is some further work to be undertaken in relation to 2019/20 priorities. HMICFRS inspection which has recently taken place will inform priority areas. |
| Decide the budget, allocating assets and funds to the Chief Constable; and set the precept for the Force area | 17d | Inform PCC's decision in respect of 2018/19 precept | | Precept set and unanimously agreed by Police & Crime Panel in January 2018 |
| | | Setting of Medium term financial plan for 2018/19 - 2023/24 | | Medium Term Financial Plan set and considered by the Police & Crime Panel in January 2018 |
| | | Funding of capital programme to provide force with appropriate assets to deliver effective policing services | | Capital programme for 2018/19 set and considered by the Police & Crime Panel as part of the MTFP in January 2018 |
| Appoint the Chief Constable | 17e | Appointment of Chief Constable | | Mark Collins appointed as Chief Constable from 18th December 2016 for a 5 year fixed term contract |
| Remove the Chief Constable | 17f | Follow process set out in Part 2 of Schedule 8 to the 2011 Act and regulations made under Section 50 of the Police Act 1996(a) | | N/A |
| | 17g | Ensure the delivery of Value for Money | | Responsibilities and arrangements for striving for Value for Money are embedded throughout the Corporate Governance Framework with both Internal and External Audit seeking assurance that appropriate arrangements are in place to secure economy, efficiency and effectiveness in both the PCCs and CCs use of resources. |
| | | Statutory compliance of estates ensuring fit for purpose for operational use | | We have had a transitional period following staff reorganisation, this has meant the compliance processing has been delayed. Compliance by contractors has continued, however the data has been slow to filter through. The compliance percentage will rise to 75% (amber) in the next 2 weeks and within a month it will be over 80% (green). There are thousands of individual items which reflect this score, so the figure alters daily. Next year we intend entering into a Facilities Management contract with compliance targets set to exceed 95%. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Maintain an efficient and effective police force for the police area | | Explore opportunities to reduce environmental impact | | SOLAR PANELS - We have a photo-voltaic array located on a roof at Police Headquarters, this feeds back into the national grid, for which we have received an annual income.<br>BIOMASS - Our boiler in Police Headquarters provides heat and hot water for the main administration block, accomodation and recreation areas. The biomass is supplied by a local SME and we limit the oil burned, although oil boilers provide resilience and additional energy if required. Following the installation of the biomass boiler, we save on the oil consumed, whilst we receive a reneawble heat incentive (RHI) payment from government for using a sustainable green energy source.<br>CARBON FOOTPRINT - As a rural force with many police stations in small villages and towns, we are reliant on oil fired boilers, however we have had a progressive replacement programme to ensure the majority of these are as efficient as possible.<br>WASTE - Although we recycle over half of our waste, during the next year we a re focussed on reducing waste and the amount transported to landfill. Our confidential waste is very significant, however as a force we are digitally performing many business functions and achieving paperless activity where possible. However in-linw with our retention policy, the paper documentation must be destroyed in the correct manner, thus causing a significant confidential waste demand. The next few years are expected to continue in this manner, however we expect the benefit of the digital processes to reduce confidential waste in the longer term. |
| | | Explore and maximise external funding opportunities | | 3 grants submitted and approved, accumulating in an income of £314,005 for 17/18 so far.<br>2 bids were identified and led by the OPCC, 1 bid was an all Wales collaborative bid. |
| | | Explore and maximise sponsorship initiative opportunities | | A new sponsorship policy and procedure is being developed which will increase the opportunities available to obtain sponsorship. |
| | | Implement and maintain a risk register to identify and mitigate risks to the OPCC and force | | Current risk register review is in progress, due for completion in the next quarter. Process for maintaining register will be re-communicated to all staff to become BAU.The top 5 and any new significant changes will be summarised for the Exec Team on a monthly basis for their consideration/discussion. |
| | | Utilise training and development plans for all OPCC staff | | Induction packs are provided to all new personnel to ensure all have access to key documents e.g. relevant legislation, office handbook etc. The Force have recently introduced a new performance development system which the OPCC is adopting. This will be utilised to inform training and development plans. |
| Enter into collaboration agreements with other PCCs, other policing bodies and partners | 17h | Explore collaboration opportunities in accordance with the Policing Vision for Wales | | The PCC and his statutory officers have attended 2 All Wales visioning days during the last year, which focused on exploring further collaborative opportunities within the All Wales policing context. Progress is monitored by the All Wales Policing Group on a quarterly basis |
| | | Explore collaboration opportunities with other partners | | 2 collaboration projects have already been developed with the other 3 Welsh OPCC's and Forces, this has opened up more opportunities for joint project development in the future which will be explored. |
